At **SeneddEIS@assembly.wales**

Cyflwynir ar ran CCAUC gan Julia Price, y Swyddog Profiad Myfyrwyr, ar **Julia.Price@hefcw.ac.uk**

Pwyllgor yr

Economi, Seilwaith a Sgiliau: Ymgynghoriad ynghylch Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Ymateb gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Nid yw CCAUC yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, sy'n cyfyngu ar ein gallu i roi sylw i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Mae ein cyfraniad wedi'i gyfyngu, felly, i ystyried sut gall CCAUC gysylltu'n well â busnes y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn y dyfodol.

Mae'n ymddangos bod addysg bellach ac uwch yn ymwneud ar lefel amrywiol ar draws y partneriaethau, gyda'r perthnasoedd yn fwy ystyrlon mewn rhai partneriaethau o gymharu ag eraill. Ein barn ni yw y byddai cynnwys CCAUC fel arsylwr ar y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn helpu i sicrhau bod llais darparwyr addysg uwch yn fwy cyson ar draws pob un o'r dair partneriaeth, ac yn hwyluso mabwysiadu arfer da mewn perthynas â chylch gwaith CCAUC yn ehangach.

Mae Sefydliadau Addysg Uwch yn gweithredu ledled Cymru yn ogystal ag yn rhanbarthol. Maent yn gweithredu mewn amgylchedd cenedlaethol a rhyngwladol nad yw'n cyd-fynd bob amser efallai ag anghenion dull rhanbarthol o weithredu. Nid yw strwythur presennol y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cefnogi strategaeth ledled Cymru ac efallai nad yw byrddau'r partneriaethau'n gynrychioliadol o ofynion y sector diwydiannol. O ganlyniad, gallai galw rhanbarthol lefel uchel posib, a chyfleoedd ar gyfer gwella sgiliau drwy weithredu ar draws y sector gyda chyflogwyr blaenoriaeth, gael eu colli.

Rydym yn deall y bydd llythyr cylch gwaith 2019-20 yn gofyn i CCAUC weithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddatgan cyfleoedd ar gyfer Addysg Uwch sy'n adlewyrchu'n uniongyrchol anghenion y rhanbarth yn unol â chlystyrau busnes, cyfleoedd seilwaith rhanbarthol a sectorau blaenoriaeth gwerth uchel. Er mwyn gwneud hyn, byddai o gymorth i CCAUC ymwneud yn fwy strwythuredig â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Ar hyn o bryd nid ydym yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Arsylwi ydym ni fel rhan o Fwrdd Cyflogadwyedd a Sgiliau Cymru (WESB) a Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru (WAAB), gan glywed y canlyniadau fel maent yn cael eu hadrodd i'r grwpiau hynny. Hefyd rydym wedi trefnu cyfarfodydd rheolaidd gydag aelodau darparwyr addysg uwch y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Fodd bynnag, byddai o gymorth i CCAUC fod yn aelodau cyfatebol o leiaf o'r Partneriaethau, gan alluogi i ni dderbyn papurau a chofnodion cyfarfodydd. Yn ddelfrydol, byddem yn hoffi bod yn arsylwyr ar y Partneriaethau er mwyn ymwneud â hwy'n uniongyrchol. Bydd hyn yn galluogi i CCAUC gyfrannu'n fwy effeithiol at adolygiadau fel yr un yma, yn ogystal â gwella ein cyfraniadau at WESB ac WAAB.

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=24100